# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio

## Dydd Mawrth 26 Mehefin 2023, 12.15 - 13.30pm

## Cyfarfod ar-lein

## Nodyn Cyfarfod

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Dewi John, Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol | Jackie Marshall-Cyrus, Jackie's Revolution |
| Ryland Doyle, swyddfa Mike Hedges AS | Rhian Morgan, Age Cymru |
| Philip Mulraney, Llywodraeth Cymru | Michael Phillips, Age Cymru |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Andrew Pithouse |
| Heather Ferguson, Age Cymru | Becky Ricketts, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru | Helen Twidle, Age Cymru |
| Nick Kelly, Hourglass | Christopher Williams, Cynghrair Henoed Cymru |

| | |
|---|---|
| **Ymddiheuriadau**<br>Peredur Owen Griffiths AS | Gareth Parsons, Fforwm Pobl Hŷn Cymru |
| Llyr Gruffydd AS | Dereck Roberts, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru (NPC) |
| Carys Henry, Ymddiriedolwr Age Cymru | Danny Tatlow, Hourglass |
| Louise Hughes, Age Cymru | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru |
| Lorraine Morgan, Jackie's Revolution | |

**Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

Croesawodd Mike Hedges AS, Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023.

Mae Mike Hedges AS, Cadeirydd, yn aros am ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w lythyr ynglŷn â materion yn ymwneud â rhyddhau pobl o'r ysbytai.

Tlodi, camdriniaeth, a'r argyfwng costau byw – Nick Kelly, Swyddog Seneddol a Pholisi, Hourglass.

Dosbarthwyd y cyflwyniad.

> Mae Hourglass yn cefnogi pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ac esgeulustod. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o gamdriniaeth ac esgeulustod, ond ni fu cynnydd mewn ymwybyddiaeth a thrafodaeth am gamdriniaeth.
>
> Mae pobl hŷn yn dioddef o'r un mathau o gamdriniaeth â dioddefwyr eraill o bob oedran. Mae hyn yn cynnwys cam-drin ariannol/economaidd, corfforol, rhywiol neu seicolegol. Mae llawer o bobl yn dioddef camdriniaeth oherwydd esgeulustod. Mae o leiaf un o bob pump o oedolion 65 oed wedi cael eu heffeithio gan ryw fath o gamdriniaeth.
>
> Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar bobl hŷn wrth i chwyddiant eu bwrw, tra bod eraill yn cymryd arian oddi wrth bobl hŷn er mwyn medru ymdopi. Mae 18% o bensiynwyr ym mhoblogaeth y DU yn byw mewn tlodi, ac am gyfnodau hirach, yn enwedig dynion a menywod sengl.
>
> Gellir ystyried tlodi fel math o drais strwythuredig. Mae trais yn effeithio'n arbennig ar fenywod sy'n byw mewn tlodi. Mae 21% o fenywod sy'n dioddef camdriniaeth yn cael eu gorfodi i gymryd absenoldeb o'r gwaith.
>
> Gall dioddefwyr-oroeswyr sy'n gadael eu partner camdriniol fod mewn perygl o ddigartrefedd, gyda 32% o fenywod digartref yn nodi eu bod wedi dioddef trais domestig yn flaenorol.
>
> Yn 2022 derbyniodd Llinell Gymorth Hourglass 1,844 o achosion lle gwelwyd camdriniaeth economaidd, ac roedd yr achosion hyn yn cyfateb i dros £19 miliwn a gafodd ei ddwyn wrth, neu ei ddwyn drwy dwyll, wrth ddioddefwyr hŷn.
>
> Yr heriau yw bod lefel isel o adroddiadau a diffyg data ac ymchwil. Nid yw oedran dioddefwyr troseddau bob amser yn cael ei gofnodi. Mae angen casglu data yn gywir. Mae Hourglass yn datblygu Mynegai Heneiddio Mwy Diogel sy'n edrych ar y data sy'n bodoli yn y DU, a'n nod yw ei ddiweddaru bob blwyddyn i weld lle mae angen mwy o adnoddau.
>
> Mae 80% o gamdriniaeth yn digwydd yng nghartref y person, gan gynnwys camdriniaeth ariannol, sy'n aml yn cael ei gyflawni gan aelod o'r teulu - mab neu ferch, partner ac aelodau eraill o'r teulu, ac mae'n annhebygol o arwain at gofnod swyddogol.

Cwestiynau a thrafodaeth

Mike Hedges AS - mae wyrion yn dal i ddisgwyl arian gan neiniau a theidiau sydd ddim yn gallu ei fforddio bellach.

Becky Ricketts - pa ddata ydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer y Mynegai Heneiddio Mwy Diogel, a yw'n seiliedig ar Gymru?

Nick Kelly - bydd data o Gymru ar gael yn fuan, ac yn aml rydym yn defnyddio arolygon trosedd a data iechyd.

Jackie Marshall-Cyrus - rydyn ni wedi clywed am gamdriniaeth ariannol ond beth am gamdriniaeth rywiol o fewn cartrefi pobl, yn y gymuned ac mewn lleoliadau sefydliadol?

Nick Kelly - rydym yn delio ag achosion o gamdriniaeth rywiol ac mae gennym rai achosion byw ar hyn o bryd. Rydym yn galw am fwy o gynghorwyr cam-driniaeth rhywiol arbenigol annibynnol.

Jackie Marshall-Cyrus – Ydych chi'n cyfeirio?

Nick Kelly - mae gennym ni gefnogaeth arbenigol sy’n cael ei ddarparu, ond rydyn ni'n cyfeirio weithiau pan fo hynny'n briodol.

<u>Arolwg Age Cymru 2023 – 'Beth sy'n bwysig i chi?  Profiadau cyfredol pobl 50 oed neu hŷn yng Nghymru'  - Heather Ferguson, Pennaeth Polisi a Phrosiectau Age Cymru.</u>

Dosbarthwyd y cyflwyniad.

> Dyma ein pedwerydd arolwg cenedlaethol ers y pandemig, a gafodd ei ddarparu mewn partneriaeth â'r pedwar sefydliad cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn - Cynghrair Pobl Hŷn Cymru (COPA), Cymru Bywiog a’r Confensiwn Pensiynwyr Cymru a Fforwm Pobl Hŷn Cymru. Cymerodd bron i 1,200 o bobl hŷn ran yn yr arolwg, rhwng 50 a 100 oed. Fe wnaethom gasglu ymatebion gan bob awdurdod lleol ledled Cymru.
>
> Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol gan gynnwys: cyfathrebu, gofalwyr di-dâl, mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol, lles corfforol a meddyliol, cyflogaeth, cael mynediad at gymunedau, costau byw. Dyma ein canfyddiadau rhagarweiniol gan ein bod yn dal i ddadansoddi'r arolwg.
>
> Roedd 20% o'r ymatebwyr wedi cael mynediad at ofal cymdeithasol ar gyfer eu hun, neu ar gyfer rhywun arall yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd llawer ohonynt brofiad negyddol o gael gafael ar gymorth, a rhwystredigaethau oherwydd arosiadau hir am becynnau gofal, gwasanaethau sydd ddim ar gael, trafferthion gyda phecynnau cymorth annigonol, ac amser cynhwysfawr a dreulir yn ceisio cysylltu â gweithwyr cymdeithasol a'r awdurdod lleol er mwyn cael help. Roedd y bobl sydd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn profi iechyd meddwl gwael neu wael iawn. Roedd tri chwarter wedi darparu gofal di-dâl i o leiaf un person.

Roedd cynnydd o 55% yn nifer y bobl a oedd yn gweld gofalu yn her yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â'r llynedd. Hefyd, dywedodd 37% o bobl eu bod yn darparu gofal di-dâl.

Mae mynediad at feddygon teulu yn broblem barhaus i lawer o bobl hŷn a'r frwydr i gael apwyntiadau. Clywsom hefyd gan bobl sydd wedi bod yn aros yn hir i gael y llawdriniaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Cafodd deintyddiaeth ei nodi gan lawer o bobl a oedd yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiad. Clywsom fod rhai pobl wedi bod gyda deintydd GIG yn y gorffennol sydd bellach wedi newid i fod yn breifat, ac mae llawer yn oedi ar restrau aros.

Dywedodd llawer o bobl wrthym mai eu hiechyd oedd eu her am y flwyddyn i ddod, boed hynny'n aros yn ffit ac yn iach, adennill ffitrwydd ar ôl llawdriniaeth, neu aros am apwyntiadau. Dywedodd 11% o bobl wrthym eu bod wedi ceisio cael gofal iechyd ond nad ydynt wedi gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

O ran heriau - am y tair blynedd diwethaf peidio â gweld teulu a ffrindiau yw'r mater yr adroddwyd amdano fwyaf, fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng 37% ers ein harolwg diwethaf. Mae iechyd corfforol gwael wedi cynyddu 4%. Mae gofalu wedi cynyddu 10% o 18% i 28%. Mae profedigaeth a galar hefyd wedi cynyddu mwy na 10% o 15% i 26%. Mae unigrwydd ac unigedd wedi gostwng o 30% i 20%, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn pobl sydd bellach yn gallu gweld teulu a ffrindiau, ond mae 20% yn dal i fod yn llawer o bobl.

Cafodd materion yn ymwneud â thrafnidiaeth eu nodi nifer o weithiau, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd 18% o bobl yn nodi bod trafnidiaeth yn her. Dywedodd llawer o bobl wrthym am anawsterau'n ymwneud â gwasanaethau bysiau annibynadwy; roedd gan rai gwasanaethau lleol nad oeddent yn rhedeg dros y penwythnos neu wasanaethau a oedd yn stopio yn gynnar yn ystod yr wythnos, gan gyfyngu'n ddifrifol ar eu gallu i fynd allan i'w cymunedau. Dywedodd nifer o bobl bod trafnidiaeth wael yn rhywbeth a fyddai'n eu hatal rhag cael mynediad i'r gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Dywedodd pobl hefyd ei bod hi'n mynd yn anoddach cael apwyntiadau ysbyty gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a bod tacsis yn mynd yn rhy ddrud, gan adael llawer i ddibynnu ar deulu a ffrindiau os oes ganddyn nhw berthnasau gerllaw.

Costau byw - dywedodd 22% o bobl wrthym nad oeddent yn hyderus y byddai ganddynt ddigon o arian i fyw yn ystod y flwyddyn i ddod. Dywedodd llawer o bobl wrthym am eu pryderon am y cynnydd mewn costau bwyd a thanwydd a sut y byddent yn cwrdd â hyn ar incwm sefydlog. Mae llawer ar fin mynd i drafferthion ariannol yn ystod y flwyddyn i ddod. Dim ond 5% o'r ymatebwyr sy'n derbyn credyd pensiwn ar hyn o bryd, doedd 79% erioed wedi gwneud cais, a dim ond 12% ddywedodd wrthym eu bod wedi gwneud cais ond doedden nhw ddim yn gymwys. Fe wnaethom gynnwys gwybodaeth am gredyd pensiwn yn yr arolwg.

Dywedodd 11% o'r ymatebwyr eu bod wedi dioddef gwahaniaethu yn y gweithle oherwydd eu hoedran, ac nid yw 70% o'r ymatebwyr yn credu bod pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n dda mewn cymdeithas.

Dywedodd yr ymatebwyr fod newidiadau mewn cymdeithas ac isadeiledd wedi gwneud iddynt deimlo'n anweledig, megis cau banciau a swyddfeydd post. Dywedodd pobl nad ydyn nhw'n ei chael hi'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau a chymorth. Roedd llawer o bobl yn teimlo bod hyn oherwydd yr orddibyniaeth ar wybodaeth ar-lein, a'r diffyg dewisiadau amgen i'r rhai nad ydyn nhw ar-lein. Dywedodd pobl wrthym am eu pryderon am dwyll a sgamiau ar-lein.

O'r bobl hynny a ddywedodd wrthym nad ydyn nhw'n gallu mynd allan, neu maent yn dewis peidio mynd allan, y rheswm a nodwyd fwyaf oedd iechyd corfforol gwael (67%), diffyg hyder (37%), cyllid, a diffyg trafnidiaeth eu hunain (35%), ac yna iechyd meddwl gwael a diffyg cyfleusterau fel toiledau a seddi cyhoeddus (29%). Nodwyd bod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem i 25% o bobl. Dywedodd 74% o bobl wrthym mai eu prif ddull o deithio yw eu car eu hunain, a'r ail yw trafnidiaeth gyhoeddus (12%) ac yna dibynnu ar ffrindiau a theulu.

Byddwn yn cwblhau dadansoddiad manwl o'r arolwg ac yn defnyddio'r wybodaeth hon fel tystiolaeth yn ein gwaith dylanwadu, a byddwn yn rhannu copi o'r adroddiad terfynol gyda'r grŵp.

<u>Cwestiynau a thrafodaeth</u>

Mike Hedges - a yw teithio ar fysiau am ddim wedi cael effaith?
Heather – mae teithio am ddim ar fysiau yn cefnogi pobl i deithio o gwmpas. Mae gwasanaethau bws yn cael eu stopio ac nid oes gwasanaeth amgen yn dod yn eu lle.

Becky Ricketts - yn yr arolwg dywedodd 25% bod angen atgyweiriadau eu cartrefi. A oes gennych unrhyw wybodaeth arall am hyn mewn arolygon blaenorol? Hefyd, a yw'r bartneriaeth WASP (Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau) yn dal i redeg?

Heather - gwnaethom ychwanegu categori newydd, 'Mae angen atgyweiriadau ar y tŷ' at ein harolwg eleni fel her sydd o bosib yn effeithio ar bobl hŷn. Dywedodd 25% o bobl fod hyn wedi bod yn her, gyda llawer o bobl yn nodi na allant fforddio gwneud yr atgyweiriadau angenrheidiol oherwydd yr argyfwng costau byw. Byddwn yn cadw hyn mewn arolygon yn y dyfodol. Bydd WASP yn cael ei ail-ddechrau, felly cymerwch ran.

Dewi John – oes gennych chi unrhyw ddata ar doiledau cyhoeddus?

Heather – rydym yn dal i ddadansoddi'r adroddiad felly byddwn yn edrych ar hyn yn y dyfodol. Roedd arolwg Cyfrifiannell Gymunedol Age Cymru hefyd yn cwmpasu hyn.

Jackie Marshall - pa gyfran o'r ymatebion a dderbyniwyd gan bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol?

Heather - rydym yn dal i ddadansoddi'r arolwg a byddwn yn cynnwys y data hwn yn ein hadroddiad terfynol.

Mike Hedges - mae pobl hŷn sydd wedi ymddeol yn ei chael hi'n anoddach fforddio pethau yr oeddent yn medru eu fforddio pan oedden nhw'n gweithio.

<u>Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Atal Cam-driniaeth Pobl Hŷn – Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol,</u>

Dechreuodd y Dirprwy Weinidog drwy amlinellu braslun byr iawn o'r daith hyd yma mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru i Atal Cam-driniaeth Pobl Hŷn.

Cyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori Cryno ym mis Ebrill 2023.

Ers hynny, mae rhanddeiliaid allweddol wedi cyflwyno sylwadau pellach ac mae swyddogion yn trafod gyda nhw sut i ddatblygu'r darn pwysig hwn o waith. Ein nod yw cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig cyn diwedd mis Awst.

Amcanion cyffredinol y Cynllun yw:

1. Mae pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

2. Cefnogir pobl hŷn i fyw'n annibynnol a chydag urddas ac maent yn gallu mynychu'r cymorth perthnasol gan wasanaethau diogelu lle maent mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

3. Gall pobl hŷn sy'n profi cam-driniaeth ddomestig neu drais rhywiol gael gafael ar gymorth perthnasol gan wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-driniaeth Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) pan fo angen.

Eglurodd y Dirprwy Weinidog ein bod wedi gweithio ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn cyfeirio ac yn cyd-fynd â strategaeth Trais yn erbyn Menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2022-2026, a gwaith y ffrwd waith Anghenion Pobl Hŷn.

Rydym yn bwriadu nodi'n fwy penodol y rôl y gall strategaeth VAWDASV ei chwarae wrth gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu.

Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd ein bod yn gwybod, gyda'n gilydd, ein bod yn gallu cyflawni canlyniadau gwell trwy weithio mewn partneriaeth gyda dull cydlynol a chydweithredol yn genedlaethol ond hefyd yn rhanbarthol ac yn lleol. Rydym yn hyderus y gellir mynd i'r afael â llawer o'r nodau a'r dyheadau a rannwn drwy'r ffrwd waith honno.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddarn o waith trawslywodraethol gyda ffocws, nid yn unig ar fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso pobl hŷn, ond ar greu'r amodau lle mae cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn llai tebygol o ddigwydd.

Mae rhai addasiadau bach ychwanegol sydd angen i ni eu gwneud ond rwy'n obeithiol y bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ystod mis Awst, a hoffem ddod yn ôl at y Grŵp Trawsbleidiol i drafod pan mae'r Cynllun Gweithredu'n cael ei weithredu. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu Atodiad sy'n nodi ein targedau o ran amser a'n cyfrifoldeb ar gyfer bob cam. Mae angen mwy o ddata ymchwil am gamdriniaeth pobl hŷn.

Cwestiynau a thrafodaeth

Nick Kelly – gan gyfeirio at ddata ymchwil byddwn yn cyhoeddi ein Mynegai Heneiddio Mwy Diogel. Nid yw gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar gyfer pobl hŷn bob amser, ac mae angen gwasanaethau cymorth mwy arbenigol.

Dirprwy Weinidog - nid yw canolfannau lloches bob amser yn addas ar gyfer menywod hŷn.

Diolchodd Mike Hedges i'r Dirprwy Weinidog am y cyflwyniad gyda gwahoddiad i ddod yn ôl i gyfarfod yn yr Hydref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

I'w drefnu ar gyfer yr hydref pan fydd y Dirprwy Weinidog yn gallu dychwelyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu terfynol.